PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD LLUN, 12 RHAGFYR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Cunnah, Henshaw, Jenkins, Lloyd Jones, Thomson a/ac Naughton |

42 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi’u derbyn.

43 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cyng. Thomson ddiddordeb personol yn Eitem 5 mewn perthynas â'i gwaith gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

44 : COFNODION

Cytunwyd ar y cofnodion yn amodol ar y cywiriadau canlynol:

Cyfarfod Hydref – Mynychodd Cyng Berman o bell
Cyfarfod Tachwedd – Mynychodd Cyng Jenkins o bell

45 : Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ADFYWIO BAE CAERDYDD

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Pwyllgor i graffu cyn penderfyniad ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd ynghlwm wrth Atodiad A i’r papurau.

Nodir cwmpas y craffu ar bwynt 4 yr adroddiad clawr ac mae'n cynnwys y dull arfaethedig o waredu tir, sut mae’r cynigion yn cydfynd â chynlluniau adfywio ehangach Bae Caerdydd, y goblygiadau ariannol, cyfreithiol ac o ran risg i'r Cyngor, beth yw'r camau nesaf, a'r argymhellion i'r Cabinet.

Atgoffwyd yr aelodau bod yr eitem hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn Atodiadau 2,3,4,6,7,8 a 9 Atodiad A - ac na ddylid cyfeirio at y rhain mewn sesiwn agored.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Russell Goodway - Aelod Cabinet - Buddsoddi a Datblygu
- Neil Hanratty - Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Chris Barnett - Rheolwr Gweithredol - Prosiectau Mawr

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad ar y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

Gwahoddwyd aelodau i ofyn cwestiynau i'r panel ar y wybodaeth yn y parth cyhoeddus fel a ganlyn.

Pwll Môr Trefol Nordig ac Atyniad Sauna Ffinnaidd.

Roedd aelodau'n falch o nodi, fel rhan o drafod y brydles, y bydd swyddogion yn dadlau dros sesiynau rhatach/am ddim i blant a phobl ifanc yn ogystal â sesiynau oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddiwallu anghenion pob cymuned yng Nghaerdydd, megis sesiynau i ferched yn unig.

Nododd yr aelodau y bydd y Dociau Sych gorllewinol yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd.

Cafodd aelodau eu cynghori bod ansawdd dŵr yn cael ei gynnal trwy system driniaeth UV ac y bydd y broses gynllunio yn cynnwys asesiad amgylcheddol cadarn.

Wrth drafod NCT 15, nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw oblygiadau llifogydd NCT15, oherwydd bod y Morglawdd yn cynnig amddiffyniad.

Tŵr arfaethedig Golwg o'r Awyr.

Roedd y aelodau'n falch o nodi na fyddai unrhyw effaith ar y llwybr cyhoeddus i Ganolfan y Ddraig Goch ac nad oes effaith ar Ganolfan y Mileniwm o ran y ddau brosiect.

Nododd yr aelodau y byddai'r gwaith ynddynt eu hunain yn gwella'r amgylchfyd cyhoeddus ac y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i wella gwyrddni'r ardal, gyda mwy o fanylion yn cael eu rhoi yn y diweddariad ar Lanfa'r Iwerydd i'r Cabinet ddechrau'r Gwanwyn.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 46 : NEUADD DEWI SANT

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet ar Neuadd Dewi Sant.

Mae cwmpas y craffu wedi'i nodi ar bwynt 4 o'r adroddiad clawr ac mae'n cynnwys archwilio'r Achos Busnes Amlinellol, yr opsiynau, yr ymgynghoriad arfaethedig gyda'r cyhoedd a staff, y goblygiadau ariannol, cyfreithiol, eiddo, Adnoddau Dynol a risg, y llinell amser a'r camau nesaf, ac, yn holl bwysig, yr argymhellion i'r Cabinet.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Joel Williams, a oedd yn bresennol i gymryd rhan yn y craffu yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, sy'n goruchwylio eiddo ac Adnoddau Dynol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn Atodiadau 1-7 o A – a gofynnwyd iddynt beidio â chyfeirio at y rhain yn y sesiwn agored.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Burke-Davies - Aelod Cabinet - Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau
- Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Twristiaeth, Digwyddiadau a Lleoliadau
- Neil Hanratty - Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Ruth Cayford – Rheolwr Gweithredol - Diwydiannau Creadigol a Diwylliant
- Chris Barnett - Rheolwr Gweithredol - Prosiectau Mawr
- Donna Jones Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Ystadau'r Sir
- Anita Batten – Rheolwr Gweithrediadau - AD

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion gyflwyniad o'r sleidiau cyhoeddus.

Ar ôl y cyflwyniad, bu Ceri Williams o Gymdeithas Ddinesig Caerdydd, yn annerch y Pwyllgor, gan godi pryderon am y cynigion. Yn dilyn ei gyflwyniad, diolchwyd i Mr Williams am ei fewnbwn gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Burke.

Gwahoddwyd aelodau i ofyn cwestiynau i'r panel ar y wybodaeth yn y parth cyhoeddus fel a ganlyn.

Cyllido

Nododd yr aelodau nad yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Neuadd Dewi Sant yn talu'r costau gweithredu na chynnal a chadw presennol a bod y sefyllfa hon yn gwaethygu, o ystyried y pwysau ar gyllideb gyffredinol y Cyngor a chanfyddiadau Arolwg Cyflwr 2021.

Roedd yr aelodau'n awyddus i ddeall a oedd llwybrau ariannu wedi cael eu harchwilio, a nodwyd bod y Cyngor wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru yn flaenorol i ofyn am arian ar gyfer Neuadd Dewi Sant a bod y cais hwn wedi'i wrthod. Cytunodd swyddogion i roi manylion i'r Pwyllgor ynglŷn â phryd y gwnaed y cais i Lywodraeth Cymru, beth oedd y cais yn ei amlinellu, a'r ymateb a dderbyniwyd.

Nododd aelodau hefyd bod cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi dod i ben yn 2017 ac mae trafodaethau dilynol yn awgrymu nad oes ganddynt ddigon o arian i dalu costau cynnal a chadw cyfalaf Neuadd Dewi Sant.

Cafodd yr aelodau wybod nad oedd proses Deialog Gystadleuol OJEU 2016 yn nodi unrhyw weithredwyr allanol sy'n barod i ymgymryd â'r rhwymedigaethau cynnal a chadw ar gyfer Neuadd Dewi Sant.

Proses

Nododd aelodau mai'r broses yw trafod prydles eiddo, gyda'r rhydd-ddaliad yn aros gyda'r Cyngor.

Cynghorwyd yr aelodau bod swyddogion yn trafod ag AMG i gytuno ar gontract arfaethedig. Os, yn dilyn ymgynghoriad, fydd y Cabinet yn ffafrio bwrw ymlaen â'r contract arfaethedig, bydd Hysbysiad VEAT (Tryloywder Ex-Ante Gwirfoddol) yn cael ei gyhoeddi - mae'r Hysbysiad VEAT yn galluogi'r cyhoedd a chystadleuwyr i weld y contract arfaethedig a'r dogfennau cysylltiedig, a'r cystadleuwyr i'w herio. Rhoddodd swyddogion sicrwydd y bydd yr holl ddogfennaeth gysylltiedig yn cael ei chynnwys yn yr Hysbysiad VEAT.

Trafodaethau hyd yma:

Bu'r aelodau'n archwilio gwahanol agweddau ar y trafodaethau presennol gan nodi:

Mae AMG yn cynnig buddsoddi £23M ym mlynyddoedd 1-3.

Planciau RAAC – yn cael eu disodli o fewn blynyddoedd 1-3.

Mae Sandy Brown, yr ymgynghorwyr acwsteg, wedi asesu'r gwelliannau arfaethedig i ddeall yr effaith ar acwsteg Neuadd Dewi Sant.

Rhaglen glasurol

Does dim negodi ar 60 diwrnod yn y tymor brig; ni fydd y Cyngor yn mynd islaw hyn.

Mae'r Cyngor yn negodi am ddiwrnodau ychwanegol yn y tymor nad yw'n frig, ond heb fod yn gyfyngedig i, 25 diwrnod i gwmpasu Canwr y Byd Caerdydd a Phroms Cymru.

Bydd y contract arfaethedig yn cynnwys amserlen o ddigwyddiadau.

Actifyddion Artistig – bydd y 3 aelod o staff presennol yn aros gyda'r Cyngor, wedi'u lleoli yn y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Mae TUPE yn berthnasol – cynghorodd Adnoddau Dynol yr Aelodau bod: Pensiynau staff yn hawl contract ac ni ellir eu newid; gellir newid graddfeydd cyflog staff a strwythur y staff os oes rhesymau economaidd, gweithredol neu dechnegol cadarn; fodd bynnag, os yw AMG yn ymwybodol o'r rhesymau hyn nawr, mae ganddynt gyfrifoldeb i hysbysu'r Cyngor fel ei fod yn rhan o broses ymgynghori swyddogol TUPE.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'n bosibl trafod ardoll gwerthu tocynnau a nodwyd ymatebion y swyddogion bod angen llawer o fuddsoddiad i gynnal y rhaglen glasurol a'r ymrwymiadau sy'n mynd ochr yn ochr â hynny, yn ogystal â'r adeilad, a bod angen i'r Cyngor roi pob cyfle i AMG gyflawni'r rhain.

Ceisiodd yr aelodau ddeall a fydd AMG yn Gyflogwr Cyflog Byw yn Neuadd Dewi Sant, ac roeddent yn ddiolchgar i Swyddogion am gynnig i geisio cael gwybod a hysbysu'r Pwyllgor.

Roedd yr aelodau yn ymwybodol o'r pryder ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd y byddai newidiadau arfaethedig i'r tu fewn i awditoriwm Neuadd Dewi Sant yn effeithio ar yr acwsteg, ac yn ceisio ffordd ymlaen ar hyn.

Ymgynghoriad

Roedd gan yr aelodau ddiddordeb i ddeall lefel yr ymgynghoriad hyd yma gan nodi:

Bod y Cyngor wedi bod yn siarad â rhanddeiliaid y rhaglen glasurol ers mis Ebrill diwethaf.

Bod y Cyngor wedi ymgysylltu â Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd a chafodd yr Aelodau wybod bod y Bwrdd yn gyffredinol yn deall ac yn cydymdeimlo â'r sefyllfa sy'n wynebu'r Cyngor a'r ffordd arfaethedig ymlaen.

Byddai'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â  rhanddeiliaid.

Ceisiodd aelodau gael eglurhad ar pam y bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion Neuadd Dewi Sant yn rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig ar y gyllideb, yn hytrach nag yn ymgynghoriad unigol penodol. Clywodd y Pwyllgor fod hyn i wneud â chost ac effeithiolrwydd ac y byddai'r Cyngor yn ymgynghori ar nifer o gynigion cynilo, o ystyried y bwlch cyllido sy'n wynebu'r Cyngor.

O ran yr ymgynghoriad ar y gyllideb, nododd yr Aelodau y byddai hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r Cyngor Ieuenctid.  Awgrymodd yr aelodau y dylai gwybodaeth yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ar y gyllideb gael ei arddangos yn Neuadd Dewi Sant, fel bod noddwyr yn ymwybodol ohono ac yn cael eu cyfeirio at lwybrau cyfranogi. Roedd yr aelodau'n ddiolchgar bod yr awgrym hwn wedi ei dderbyn.

Gwybodaeth Gyfrinachol

Anogodd aelodau'r Swyddogion i edrych eto ar ba wybodaeth sydd angen aros yn gyfrinachol a gweithio i roi cymaint ag sy'n bosib yn y parth cyhoeddus.  Roedd yr aelodau'n cydnabod y byddai dogfennau  ar gael fel rhan o'r broses Hysbysiad VEAT ond yn credu y byddai'n well rhyddhau cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl, mor gynnar ag sy'n bosibl o fewn terfynau cyfrinachedd masnachol, gan fod hyn yn hyrwyddo tryloywder a gweithredu'n agored ac felly'n helpu i gefnogi democratiaeth leol.

Adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol

Nododd yr aelodau y byddai adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol, a ragwelwyd ar gyfer Mawrth 2023, a fyddai'n cynnwys canfyddiadau'r ymgynghoriad ac asesiad o werth gorau cynnig AMG, er mwyn galluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Nododd yr Aelodau y byddai Asesiad Hawliau Plant yn cael ei gynnal a'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet, fel y nododd cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid ar y Pwyllgor, bod angen.

Roedd yr aelodau am annog Swyddogion i gymryd yr amser sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y ffordd orau ymlaen yn cael ei sicrhau.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

47 : BAND LLYDAN

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd ynghlwm wrth Atodiad A o'r papurau.

Cwmpas y craffu yw archwilio'r cynigion sydd yn yr adroddiad i'r Cabinet, gan gynnwys y dull o flaenoriaethu safleoedd a'r dull arfaethedig o gaffael, yr angen am weithio ar y cyd, y goblygiadau ariannol a chyfreithiol i'r Cyngor, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, beth yw'r camau nesaf, ac yn hollbwysig, archwilio'r argymhellion i'r Cabinet.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cyng. Chris Weaver - yr Aelod Cabinet - Cyllid, Perfformiad a Moderneiddio
- Mandy Evans – Rheolwr Prosiect

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad, ac ar ôl hynny gofynnwyd i Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu arsylwadau.

Croesawodd yr aelodau gyllid £7.7M Llywodraeth Cymru i wella seilwaith digidol i eiddo sydd wedi'i weini'n wael yng Nghaerdydd a rhoddwyd canmoliaeth i Swyddogion am eu gwaith i ddatblygu cais llwyddiannus.

Trafododd yr aelodau a ellid bod wedi colli safleoedd, gyda bylchau rhwng y prosiect hwn a'r rhaglenni cyflwyno 5G arfaethedig i gyflenwyr masnachol. Nododd yr aelodau mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cysylltu â chyflenwyr masnachol a'u bod yn monitro newidiadau yn agos yn eu rhaglenni wrth iddyn nhw eu cyflwyno. Nododd yr aelodau y bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn cysylltu â'r Cyngor ynglŷn â safleoedd nad ydynt wedi'u cynnwys mewn rhaglenni cyflwyno 5G masnachol, ac y bydd yr adeiladau hyn yn cael eu cynnwys ym mhrosiect y Gronfa Band Eang Leol. Felly, ni ddylai fod unrhyw fylchau.

Nododd yr aelodau fod yna adeiladau wedi eu gwasanaethu'n wael ledled Caerdydd ac y byddai'r prosiect hwn yn ceisio mynd i'r afael â chymaint â phosibl ohonynt o fewn y cyllid sydd ar gael. Nododd yr aelodau y byddai safleoedd yn cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ynghyd â'r angen i sicrhau'r Gwerth Gorau gyda rhaglenni'n cael eu cyflwyno i wneud y gorau o'r nifer o adeiladau y gellir eu cynnwys yn y prosiect hwn.

Nododd yr aelodau bod y prosiect hwn yn canolbwyntio ar wella'r seilwaith digidol ac y dylai hyn, yn ei dro, gynyddu argaeledd tariffau cymdeithasol, gan y bydd cyflenwyr mwy masnachol yn gallu cael mynediad i adeiladau, ac y bydd y gystadleuaeth gynyddol hon yn arwain at godi nifer y cyflenwyr yng Nghaerdydd sy'n cynnig tariffau cymdeithasol.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 48 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu y wybodaeth allweddol o'r adroddiad gan gynnwys cais gan Graffu Amgylcheddol am Bwyllgor Craffu ar y Cyd ar Ynys Echni, ymweliad â Chlwb Hwylio Caerdydd (Dyddiad i'w drefnu) a throsolwg o'r rhaglen waith.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

## 49 : ADRODDIAD GOHEBIAETH

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

## 50 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

## 51 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

18 Ionawr 2023 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25 pm